# YR ATODLENNI

## ATODLEN 2

## ESEMPTIADAU

### Dadlwytho oddi ar longau mewn argyfwng

**4.** At ddiben paragraff 3, mae sylwedd i'w drin fel petai wedi ei ddadlwytho oddi ar fad mewn argyfwng—

(a) os cafodd ei ddadlwytho oddi ar fad yr oedd cyfarwyddyd o dan adran 3(1) o Ddeddf Llestrau Peryglus 1985(**1**) (cyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol i harbwrfeistr) yn gymwys iddo; neu

(b) os cafodd ei ddadlwytho oddi ar fad ar ôl iddo ddod i mewn i harbwr neu ardal harbwr, o fewn ystyr "harbour" neu "harbour area" yn rheoliad 2 o Reoliadau Sylweddau Peryglus mewn Ardaloedd Harbwr 1987(**2**), heb fod hysbysiad yn ofynnol o dan baragraff (1) o reoliad 6 o'r Rheoliadau hynny yn rhinwedd esemptiad o dan baragraff (5) o'r rheoliad hwnnw.

(**1**) 1985. p. 22.
(**2**) O.S. 1987/37, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.